



Annwyl

Request for Information – ATISN 14392

Ysgrifennais atoch ar 9 Hydref yn glŷn â'ch cais am wybodaeth. Gofynnwyd am yr wybodaeth ganlynol mewn cyswllt â phrosiect ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon:

- 1) Cost y prosiect hyd yn hyn (fesul blwyddyn)
- 2) Amcangyfrif o'r arian fydd wedi ei wario erbyn diwedd y prosiect (fesul blwyddyn)
- 3) Sawl cŵyn mae Llywodraeth Cymru wedi ei derbyn ynghylch y prosiect
- 4) Unrhyw ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a chontractwyr y prosiect (Balfour Beatty, Jones Brothers) o ran unrhyw oedi i'r prosiect
- 5) Unrhyw ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a chontractwyr y prosiect (Balfour Beatty, Jones Brothers) o ran mwy o gost i'r prosiect na'r hyn a ddisgwyliid

Rwy'n cadarnhau bod gan Lywodraeth Cymru ychydig o'r wybodaeth yr ydych wedi golynd amdani ac sydd i'w gweld isod.

Cyfanswm ffigurau'r gyllideb ar gyfer C1 -

Blwyddyn	Gwariant £miliwn
2014/15	1.21
2015/16	4.73
2016/17	3.85
2017/18	3.16
2018/19	8.02
2019/20	42.19
Cyfanswm	£63.16



Ar gyfer C2 –

Blwyddyn	Gwariant a ragwelir £miliwn
2020/21	52.50
2021/22	30.00
2022/23 +	1.500
Cyfanswm	£84.0miliwn

Ar gyfer C3, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw gwynion yn ystod y gwaith adeiladu.

Ar gyfer C4 a C5, nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw unrhyw ohebiaeth e-bost neu lythyr rhyngddi hi a Balfour Beatty / Jones Brothers sy'n cyfeirio'n benodol at achosion o oedi neu gostau'r prosiect yn fwy na'r disgwyl. Fodd bynnag, rwyf wedi darparu crynodeb isod o'r sefyllfa bresennol a all fod yn ddefnyddiol ichi.

Mae'r prosiect yn dal i fod ar drywydd i'w gwblhau ar ddechrau 2022 ac er i'r costau gynyddu mewn ambell fan oherwydd gwaith ychwanegol a delio ag effeithiau Covid-19, rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y prosiect ar y cyfan o fewn y gyllideb gyffredinol.

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, cewch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid anfon ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:

Yr Uned Hawliau Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu anfonwch e-bost at: Freedom.ofinformation@gov.wales. Cofiwch ddyfynnu'r rhif cyfeirnod ATISN uchod.

Hefyd mae gennych yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

The Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Fodd bynnag, noder na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi mynd drwy ein proses adolygu mewnol.

Yn gywir